



Oedolyn sy'n Wynebu Risg — o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

'Oedolyn sy'n wynebu risg' yw oedolyn:

- sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso
- sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio)
- nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu sy'n wynebu risg o hynny.

Dywed y canllawiau bod cynnwys 'yn wynebu risg' yn galluogi ymyrraeth gynnar i amddiffyn oedolyn sy'n wynebu risg. Nid oes rhaid bod camdriniaeth neu esgeulustod wedi digwydd cyn penderfynu gweithredu.

Mae'r **Ddeddf** yn diffinio camdriniaeth ac esgeulustod.

Ystyr **camdriniaeth** yw camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys camdriniaeth sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, p'un ai mewn annedd breifat, mewn sefydliad neu mewn unrhyw fan arall) ac mae "camdriniaeth ariannol" yn cynnwys dwyn, twyllo, rhoi pwysau ar berson mewn perthynas ag arian, camddefnyddio arian.

Ystyr **esgeulustod** yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy'n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person).

Mae canllawiau yn egluro y bydd effaith camdriniaeth ac esgeulustod, a'r hyn a wnewch, yn dibynnu ar:

- ba mor fregus neu agored i niwed yw'r oedolyn sy'n wynebu risg
- hyd a lled y gamdriniaeth neu esgeulustod
- am ba hyd a pha mor aml mae'n digwydd
- yr effaith ar yr unigolyn
- y risg y bydd yn digwydd eto neu'n gwaethygu i'r oedolyn hwn neu oedolion eraill sy'n wynebu risg.

Gall camdriniaeth neu esgeulustod fod yn drosedd. Maent yn cynnwys troseddau yn erbyn y person (troseddau treisgar), troseddau rhywiol a throseddau eiddo fel dwyn. Os yw camdriniaeth neu esgeulustod yn cael ei gymhell gan nodwedd bersonol rhywun – anabledd, hil ac ethnigrwydd, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran trawsrywedd / rhywedd – yna gall fod yn drosedd casineb.



Dyma restr o rai enghreifftiau o bob un o'r categorïau o gamdriniaeth ac esgeulustod:

Cam-drin corfforol – taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, ataliaeth amhriodol, neu gosbau amhriodol.

Cam-drin rhywiol – treisio ac ymosodiadau rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw'r oedolyn agored i niwed wedi cydsynio iddynt neu na allai fod wedi cydsynio iddynt a/neu y cafodd ei orfodi i gydsynio iddynt.

Cam-drin seicolegol – bygwth niweidio neu adael, rheolaeth drwy rym, bychanu, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu atal rhywun rhag cymryd rhan mewn gwasanaethau neu rwydweithiau cefnogi; rheolaeth drwy rym yw gweithred neu batrwm o weithredoedd megis ymosod, bygwth, bychanu, codi braw neu fathau eraill o gam-drin sy'n cael eu defnyddio i niweidio, cosbi neu godi ofn ar y dioddefwr.

Esgeulustod – methu â sicrhau gofal meddygol neu wasanaethau, esgeulustod emosynol, diofalwch wrth gymryd risg, methu â rhoi meddyginiaeth bresgripsiwn, methu â chynorthwyo gyda hylendid personol neu ddarparu bwyd, lloches neu ddillad.

Cam-drin ariannol mewn perthynas â phobl sydd ag anghenion am ofal a chymorth:

- newid annisgwyl yn eu hewyllys
- gwerthu neu drosglwyddo eu cartref yn sydyn
- gweithgarwch anarferol mewn cyfrif banc
- cynnwys enwau ychwanegol ar gyfrif banc yn sydyn
- nid yw llofnod yn debyg i lofnod arferol yr unigolyn
- yr unigolyn yn amharod neu'n bryderus wrth drafod materion ariannol
- rhoi rhodd sylweddol i ofalwr neu drydydd parti arall
- perthynas neu drydydd parti arall yn cymryd diddordeb sydyn yn lles yr unigolyn
- biliau heb eu talu
- cwynion fod eiddo personol ar goll
- dirywiad mewn ymddangosiad personol a allai fod yn arwydd bod gofynion deietegol a phersonol yn cael eu hanwybyddu
- cael eu hynysu'n fwriadol oddi wrth deulu a ffrindiau gan roi rheolaeth lwyr dros eu penderfyniadau i rywun arall.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru yn

gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan